# Y CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD O BELL A GYNHALIWYD TRWY MICROSOFT TEAMS DDYDD MERCHER, 28 HYDREF 2020 AM 10.30 A.M.

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd S. Morgan (Dirprwy Arweinydd ac Aelod y Cabinet dros yr Economi a Menter) – Cadeirydd (yn llywyddu)

Cynghorwyr:

S. Cook (Gofal Cymdeithasol), N. George (Gwastraff a Diogelu'r Cyhoedd), C.J. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), J. Ridgewell (yr Amgylchedd a Seilwaith), E. Stenner (Perfformiad a Gwasanaethau Cwsmeriaid) ac R. Whiting (Dysgu a Chyflawniad).

Ynghyd â:

D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai) ac M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro – Cymunedau).

Hefyd yn bresennol:

T. Broadhurst (Rheolwr Ystadau), L. Donovan (Pennaeth Gwasanaethau Pobl), S. Harris (Pennaeth Cyllid Corfforaethol a Swyddog Adran 151), S. Mutch (Rheolwr y Blynyddoedd Cynnar), K. Peters (Rheolwr Polisi Corfforaethol), R. Roberts (Rheolwr Gwella Busnes), S. Richards (Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg), C. Forbes-Thompson (Rheolwr Craffu), R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), C. Evans (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor), K. Peters, (Rheolwr Polisi Corfforaethol)

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr P. Marsden (Arweinydd) ac L. Phipps (Aelod y Cabinet dros Dai ac Eiddo); ac C. Harrhy (Prif Weithredwr) ac R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol).

### 2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau ar ddechrau nac yn ystod y cyfarfod.

### 3. Y CABINET – 14 HYDREF 2020

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Hydref 2020 fel cofnod cywir.

## 4. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET – I'W NODI

Rhoddwyd Blaenraglen Waith y Cabinet i'r Cabinet, a oedd yn manylu ar yr adroddiadau sydd wedi'u trefnu o 11 Tachwedd 2020 tan 25 Tachwedd 2020. Atgoffwyd yr Aelodau mai dogfen weithio yw Blaenraglen Waith y Cabinet, a'i bod felly'n agored i'w newid.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd nodi'r Flaenraglen Waith. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol trwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD nodi Blaenraglen Waith y Cabinet.

## 5. Y WEITHDREFN RECRIWTIO MWY DIOGEL A PHOLISÏAU YN YMWNEUD Â'R GWASANAETH DATGELU A GWAHARDD (DBS)

Roedd yr adroddiad, a ystyriwyd gan y Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau ar 25 Mawrth 2020, yn gofyn i'r Cabinet ystyried y Weithdrefn Recriwtio Mwy Diogel a Pholisïau yn ymwneud â'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), a oedd ynghlwm fel atodiadau 1, 2 a 3 yr adroddiad.

Nododd y Cabinet fod Gweithdrefn Recriwtio a Dethol presennol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi cael ei adolygu ddiwethaf yn 2004, ac felly ceisiwyd cymeradwyaeth i gyflwyno gweithdrefn ddiwygiedig sy'n adlewyrchu arferion recriwtio diogel cyfredol a chyfle cyfartal.

Mae'r Weithdrefn Recriwtio Mwy Diogel arfaethedig sydd ynghlwm yn Atodiad 1 yr adroddiad yn ategu'r broses a'r canllawiau presennol ar gyfer rheoli swyddi gwag sydd ar gael i recriwtio rheolwyr ar fewnrwyd y Cyngor, h.y. y broses a'r canllawiau y mae angen eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd yn unol â blaenoriaethau gweithredol y Cyngor a diweddariadau deddfwriaethol.

Mae'r Weithdrefn Recriwtio Mwy Diogel arfaethedig wedi'i seilio ar gyfle cyfartal ac arferion recriwtio mwy diogel, y mae'r ddau yn ofynion nad ydynt yn agored i'w trafod wrth recriwtio i swyddi yn y Cyngor. Mae'n darparu cyfres o ganllawiau sy'n sicrhau bod proses deg a gwrthrychol yn cael ei dilyn wrth recriwtio, sy'n ystyried deddfwriaeth cyflogaeth a chydraddoldeb ynghyd ag arfer gorau ym maes diogelu wrth recriwtio i swydd a/ neu gymryd ymlaen staff asiantaeth/ gwirfoddolwyr i weithio ar draws y Cyngor. Mae'n adlewyrchu canllawiau statudol ac egwyddorion arfer gorau Bwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru (SEWCSB), Bwrdd Diogelu Oedolion Gwent Gyfan (GWASB) ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), lle yr hyrwyddir ymwybyddiaeth ac arfer da.

Nodwyd bod safbwynt y Cyngor ar wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn rhan annatod o arferion Recriwtio Mwy Diogel, a bod y DBS yn disgwyl i safbwynt y Cyngor gael ei adlewyrchu'n glir mewn polisi ysgrifenedig. Mae'r Cyngor wedi dilyn y Polisi a'r Weithdrefn DBS yn gyson yn ei arferion gweithredol, ond nid yw wedi cyhoeddi ei safbwynt polisi ysgrifenedig ei hun eto. Ychwanegwyd y Polisi hwn yn Atodiad 2 yr adroddiad.

Cyhoeddodd y DBS ganllaw yn ystod yr hydref 2018 o'r enw 'Canllaw i Rolau Llywodraethwr Ysgol a Chynghorydd Etholedig yng Nghymru' (ynghlwm yn Atodiad 4). Mae'r canllaw hwn yn rhoi cyfle i'r Cyngor adolygu ei arferion gweithredol presennol i sicrhau eu bod yn gyson gadarn a diogel. Wrth ymateb i'r canllaw hwn, mae cydweithwyr yn y Gwasanaethau Pwyllgor, Adnoddau Dynol, Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n gyfrifol am ddiogelu/sy'n ymwneud â diogelu yn ceisio ymestyn y broses wirio DBS weithredol i gynnwys Aelodau Etholedig a Llywodraethwyr Ysgolion, fel yr amlinellir yn y dogfennau Polisi a Gweithdrefn DBS sydd ynghlwm yn Atodiadau 2 a 3.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth arno.

Ceisiodd Aelod o'r Cabinet wybodaeth ychwanegol am gostau'r gwiriadau DBS a sut mae'r rhain yn cael eu hysgwyddo gan y Cyngor. Esboniodd swyddogion fod costau'r gwiriadau hyn ychydig yn llai y llynedd ac ni chafwyd cost ddiwygiedig hyd yma. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod y maes gwasanaeth unigol yn talu am gostau yn aml.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol trwy bleidlais electronig.

Am y rhesymau a roddwyd yn Adroddiad y Swyddog, PENDERFYNWYD: -

i) Cymeradwyo'r Weithdrefn Recriwtio Mwy Diogel sydd ynghlwm yn Atodiad 1 yr adroddiad. Bydd y Weithdrefn hon yn disodli Gweithdrefn Recriwtio a Dethol bresennol 2004;

ii) Cymeradwyo'r Polisi DBS sydd ynghlwm yn Atodiad 2 yr adroddiad. Bydd y Polisi hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor;

iii) Cymeradwyo'r Polisi DBS yn ymwneud â Llywodraethwyr Ysgolion sydd ynghlwm yn Atodiad 3 yr adroddiad. Yna, bydd y Polisi'n cael ei ddosbarthu i Ysgolion gydag argymhelliad i'w fabwysiadu.

## 6. RHYDDID Y FWRDEISTREF – Y LLENG BRYDEINIG FRENHINOL

Roedd yr adroddiad yn ceisio penderfyniad ynglŷn â ph'un a yw'r Cabinet eisiau argymell bod y Cyngor yn derbyn y Lleng Brydeinig Frenhinol yn Rhyddfreinwyr Anrhydeddus y Fwrdeistref Sirol i gydnabod eu Canmlwyddiant ar 15 Mai 2021 ac i anrhydeddu gwaith elusennol y sefydliad sy'n cefnogi cyn-filwyr a'u teuluoedd.

Nodwyd bod Adran 249 (5) Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn caniatáu i Gyngor Bwrdeistref roi Rhyddid y Fwrdeistref i "unigolion nodedig ac unigolion sydd, ym marn y Cyngor, wedi rhoi gwasanaeth amlwg i'r Fwrdeistref". Er mwyn rhoi Rhyddid y Fwrdeistref, mae'n rhaid i benderfyniad gael ei basio gan o leiaf ddwy ran o dair o'r aelodau sy'n pleidleisio mewn cyfarfod o'r Cyngor a gynullwyd yn benodol at y diben hwnnw.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth arno.

Nododd yr Aelodau y gwaith sylweddol a wneir gan y Lleng Brydeinig Frenhinol i gefnogi personél milwrol a chyn-filwyr a'u teuluoedd, a thynnwyd sylw at y pandemig presennol a'r ffaith ei fod yn cyfyngu ar godi arian, a'r awgrymiadau a'r gweithgareddau amgen a oedd yn cael eu gwneud gan y Lleng Brydeinig Frenhinol mewn perthynas ag Apêl y Pabi.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol trwy bleidlais electronig.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a roddwyd yn Adroddiad y Swyddog, y bydd y Cyngor yn rhoi Rhyddid Bwrdeistref Sirol Caerffili i'r Lleng Brydeinig Frenhinol yn 2021, yn unol ag Adran 249 (fel y'i diwygiwyd) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

## 7. TROSGLWYDDO ASEDAU CYMUNEDOL – POLISI A PHROSES DRAFFT

Cyflwynodd yr adroddiad bolisi a phroses drafft ar gyfer Trosglwyddo Asedau Cymunedol, a cheisiodd farn y Cabinet ynglŷn â'i gynnwys. Ymgynghorwyd ar y Polisi yn fewnol, a chyda'r Sector Gwirfoddol. Nodwyd bod y fersiwn sydd wedi'i hatodi i'r adroddiad yn cynnwys safbwyntiau rhanddeiliaid hyd yma. Ymgynghorwyd â'r Pwyllgor Cyswllt Cynghorau Cymuned

ar 11 Mawrth 2020 ac ymgynghorwyd â'r Pwyllgor Craffu ar yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar 11 Chwefror 2020.

Nododd y Cabinet mai Trosglwyddo Asedau Cymunedol (CAT) yw trosglwyddo asedau a ddarparwyd gynt trwy arian sector cyhoeddus i reoli sefydliadau cymunedol. Gellir defnyddio CAT fel dewis amgen yn lle gwaredu ased pan allai'r ased hwnnw fod o fudd i'r gymuned. Fel arfer, bydd asedau'n cael eu gwaredu'n fasnachol i gyflawni'r gwerth gorau; fodd bynnag, bydd amgylchiadau'n codi pryd y gallai'r Cyngor benderfynu y byddai'r ased yn cael ei reoli'n well gan sefydliad cymunedol. Mae'n bosibl y bydd sefydliadau cymunedol yn gallu defnyddio'r ased mewn ffordd fwy cynaliadwy, gan adlewyrchu anghenion y gymuned, defnyddio arbenigedd ac amser gwirfoddolwyr, a manteisio ar ffrydiau cyllido nad ydynt ar gael i'r awdurdod lleol. Nid ffordd o waredu asedau sydd dros ben ac arbed costau yw CAT; dylid ei wneud er mwyn darparu buddion i gymunedau trwy gydweithio a rhyddhau asedau at ddefnydd y gymuned.

Nodwyd bod y Cyngor wedi trosglwyddo asedau yn y gorffennol; fodd bynnag, nid yw'r broses wedi cael ei chodeiddio'n gyfres o egwyddorion arweiniol. Mae Llywodraeth Cymru, trwy Asedau Cymru, yn hyrwyddo mabwysiadu proses CAT sy'n rhwydd i sefydliadau cymunedol ei deall ac sy'n darparu proses asesu gyson ar gyfer yr awdurdod. Mae'r polisi drafft wedi'i seilio ar ganllawiau diweddaraf Asedau Cymru.

Bwriedir i'r polisi CAT drafft fod yn bolisi ambarél sy'n datgan y nodau a'r ymagwedd lefel uchel. Cydnabyddir y bydd CAT yn wahanol i bob ased sy'n cael ei ystyried.

Pan ystyriwyd y Polisi gan y Pwyllgor Craffu, nodwyd bod yr Aelodau wedi argymell y dylai'r Polisi gael ei fabwysiadu gan ddileu'r frawddeg "Nid yw'r asedau hynny a allai gynhyrchu derbyniadau cyfalaf sylweddol yn debygol o gael eu hystyried yn addas i'w trosglwyddo" fel y'i hamlinellir yn yr adran "Egwyddorion Arweiniol a ddefnyddir gan yr Awdurdod Lleol" o'r Polisi a'r broses drafft sydd i'w mabwysiadu.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog, y Pwyllgor Craffu a'r Pwyllgor Cyswllt Cynghorau Cymuned am eu hymdrechion wrth gyflwyno'r adroddiad, a chafwyd trafodaeth arno.

Gan nodi bod y Pwyllgor Craffu ar yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn argymell dileu'r frawddeg "Nid yw'r asedau hynny a allai gynhyrchu derbyniadau cyfalaf sylweddol yn debygol o gael eu hystyried yn addas i'w trosglwyddo", ceisiodd y Dirprwy Arweinydd ragor o wybodaeth am yr effaith y byddai dileu'r frawddeg hon yn ei chael ar y Polisi. Esboniodd swyddogion fod y frawddeg wedi cael ei chymryd o ganllawiau a gefnogir gan Lywodraeth Cymru sy'n awgrymu y dylai awdurdodau lleol amlinellu'n glir yr hyn y byddant, ac na fyddant, yn ei ystyried. Ni fyddai dileu'r eglurhad yn gwneud gwahaniaeth ymarferol i'r broses o wneud penderfyniadau, ond fe allai gynyddu nifer y ceisiadau sy'n annhebygol o gael eu hystyried. Fe allai greu gobaith gwag i ymgeiswyr, ac felly mae'r frawddeg yn rhoi cyngor ac arweiniad ar rai o gyfyngiadau'r cynllun.

Trafododd y Cabinet y pwynt hwn ymhellach, a chyfeiriwyd yr Aelodau at baragraff 5.2 o adroddiad y Swyddog, a oedd yn ailadrodd nad yw CAT yn gyfrwng i waredu asedau sydd dros ben. Yn hytrach, mae'n fodd i'r Cyngor weithio gyda chymunedau i ystyried pa asedau a allai fod yn addas i'w trosglwyddo gyda'r bwriad o warchod yr ased hwnnw i'w ddefnyddio gan y gymuned yn y dyfodol, ond o dan drefniant rheoli/ perchenogaeth gwahanol.

Mynegodd Aelod o'r Cabinet bryder ynglŷn â'r geiriad yn y canllaw a theimlai fod modd ei ddehongli mewn ffordd a allai gyfyngu ar nifer y cymunedau sy'n ymgeisio am asedau, yn ogystal â chreu amheuon.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol trwy bleidlais electronig.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a roddwyd yn adroddiad y Swyddog, y dylai Trosglwyddo Asedau Cymunedol – Polisi a Phroses gael ei fabwysiadu.

## 8. TRWYDDEDAU "CAFFI STRYD"

Rhoddodd yr adroddiad ddiweddariad i'r Cabinet ar y newidiadau sy'n ofynnol i'r broses ar gyfer caniatáu Trwyddedau "Caffi Stryd", a cheisiodd gymeradwyaeth y Cabinet i weithredu'r newidiadau hynny.

Nodwyd bod llawer o fusnesau yn y Fwrdeistref Sirol wedi wynebu heriau sylweddol o ganlyniad i COVID-19 a'r gofynion cyfyngiadau symud sydd wedi deillio ohono. Mae hyn yn cynnwys llawer o fusnesau yng nghanol y dref, yn enwedig y sector lletygarwch yng nghanol y dref.

Mae Llywodraeth Cymru wedi annog pob Awdurdod Lleol yng Nghymru i gefnogi busnesau o'r fath wrth iddynt geisio adfer o niwed economaidd COVID-19 ac, wrth wneud hynny, lleihau unrhyw fiwrocratiaeth a/neu sicrhau rhywfaint o hyblygrwydd wrth ysgogi a chynnal amgylchedd masnachu ac addasu lle at ddibenion gwahanol i ganiatáu i hyn ddigwydd. Wrth wneud hynny, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi annog ymagwedd "caffi stryd", ac mae wedi cynorthwyo gyda rhai ymyriadau ffisegol mewn canol trefi penodol.

Nodwyd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cefnogi ac yn annog darparu caffis stryd yng nghanol trefi, gan eu bod yn gwneud cyfraniad cadarnhaol trwy ychwanegu bywiogrwydd, lliw, bywyd a diddordeb i'r strydlun. Gallant helpu i ddefnyddio mannau cyhoeddus i'r eithaf, rhoi hwb i'r economi leol ac ychwanegu at y cyfleusterau a gynigir i bobl sy'n ymweld â'r Fwrdeistref ac yn byw a gweithio ynddi. Gall creu diwylliant "caffi stryd" hefyd helpu i addasu canol trefi at ddibenion gwahanol yn y tymor hwy, wrth iddynt ymdrechu i oroesi mewn amodau economaidd anodd ac oherwydd y pwysau sy'n dod yn sgil symud i siopa ar-lein.

Er bod caffis stryd yn cael eu hannog, mae'n bwysig eu bod yn cael eu gweinyddu a'u rheoli'n iawn i sicrhau eu bod yn bodloni'r safonau uchel a ddisgwylir yng nghanol trefi. Ni ddylent rwystro'r briffordd na chreu perygl i gerddwyr, yn enwedig pobl ddall, rhannol ddall a phobl eraill anabl.

Nid yw'r broses ar gyfer ceisio a chael caniatâd i fasnachu ar y droedffordd yn y Fwrdeistref Sirol yn addas i'r diben mwyach, h.y. mae'n broses hir a biwrocrataidd nad yw'n cynnig yr hyblygrwydd a fynnir gan ganol trefi modern y mae angen iddynt ymateb i amgylchiadau economaidd sy'n newid.

Felly, mae'r adroddiad yn ceisio "moderneiddio'r" broses hon trwy gyflwyno proses newydd ar gyfer caffis sy'n dymuno masnachu ar y briffordd. Byddai'r broses ddiwygiedig hon yn ymdrin â defnyddio lle masnachu ar gyfer caffis ar y droedffordd, a bydd yn ychwanegol at bolisi masnachu ar y stryd y Cyngor sy'n ymdrin â phob agwedd arall ar fasnachu ar y droedffordd.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth arno.

O ystyried bod nifer o Awdurdodau Lleol eraill yn gweithredu'r un dulliau, neu rai tebyg, i annog busnesau i barhau i fasnachu, a bod ffioedd parcio wedi cael eu hatal dros dro tan y Flwyddyn Newydd, gofynnodd Aelod o'r Cabinet pam yr ymestynnwyd y cynllun hwn i fis Medi 2021. Esboniodd swyddogion y gellir hepgor y cyfnod ymgynghori 28 niwrnod cyfreithiol, sy'n caniatáu i berchenogion busnesau fanteisio ar y cynllun a'r fasnach awyr agored, a bydd y cyfnod estynedig yn caniatáu i'r cyfryw berchenogion busnesau fanteisio ar fisoedd y gwanwyn a'r haf.

Wrth drafod y cyfnod ymgynghori, ceisiodd Aelod o'r Cabinet ragor o wybodaeth am y broses, petai gwrthwynebiadau o bwys yn cael eu codi ynglŷn â diogelwch y cyhoedd a mynediad i

droedffyrdd. Esboniodd swyddogion y bydd busnesau'n cael gwybod am hynt y broses ac os bydd unrhyw wrthwynebiadau o bwys yn cael eu codi, efallai na fydd y drwydded yn cael ei rhoi. Er bod y cynnig yn ceisio cynorthwyo busnesau yn ystod yr adeg anodd hon, diogelwch y cyhoedd sydd bwysicaf o hyd. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi hefyd bod rhwystrau dros dro wedi cael eu gosod mewn ardaloedd o fewn canol trefi i ddarparu ar gyfer seddau/ bwyta yn yr awyr agored. Fodd bynnag, mae 'parciau pafin', sef math o seddau pren decio, wedi cael eu harchebu a fydd yn darparu ateb mwy addas ar yr un pryd â sicrhau bod troedffyrdd cyhoeddus yn aros yn glir. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi y gall gymryd hyd at 8-12 wythnos i'r parciau pafin hyn gael eu danfon, felly er nad ydynt yn debygol o fod ar gael ar gyfer masnach y Nadolig, gobeithir y byddant yn eu lle cyn y Gwanwyn.

Ceisiodd Aelod o'r Cabinet ragor o wybodaeth am y prosesau mewnol sydd ar waith i ymdrin â cheisiadau am Drwyddedau Stryd. Esboniodd swyddogion fod hyn yn dod o dan y Ddeddf Priffyrdd. Gellir cyflwyno ceisiadau i'r Adran Briffyrdd sydd, ar y cyd â'r Tîm Rheoli Canol Trefi, yn cynnal yr asesiad perthnasol, yn rhan o'r broses sydd wedi'i hen sefydlu.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol trwy bleidlais electronig.

Am y rhesymau a roddwyd yn Adroddiad y Swyddog, PENDERFYNWYD: -

i) Cytuno ar 'foderneiddio'r' broses trwydded caffi stryd, a bod awdurdod yn cael ei ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro (Cymunedau), mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet perthnasol a'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, i gwblhau'r dogfennau ymgeisio a'r nodiadau canllaw cysylltiedig yn derfynol;

ii) Bod unrhyw ffïoedd sy'n gysylltiedig â masnachu y tu allan yn cael eu hepgor tan 30 Medi 2021 (yn amodol ar adolygiad pellach) i roi amser i fusnesau adfer o COVID-19 a manteisio ar gyfnod y gwanwyn a'r haf 2021;

iii) Bod y broses amgen, fel y'i hamlinellir yn adran 5.5. yr adroddiad, yn cael ei chytuno ar gyfer y cyfnod ymgynghori 28 niwrnod cychwynnol.

## 9. ADRODDIAD BLYNYDDOL AR BERFFORMIAD 2019/20

Roedd yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad 2019/20 cyn iddo gael ei gyflwyno i'w nodi gan y Cyngor llawn.

Mae'r Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad yn ofyniad statudol o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ac mae'n rhan bwysig o fframwaith perfformiad y Cyngor.

Nododd y Cabinet ei bod yn ofynnol i'r Cyngor asesu ei berfformiad ei hun a rhoi darlun cytbwys o'r perfformiad hwnnw i'r cyhoedd. Mae'n rhaid i'r Cyngor hefyd adrodd am gynnydd yn erbyn y chwe Amcan Llesiant a amlinellir yng Nghynllun Corfforaethol 2018-2023. Mae'r adroddiad yn ymdrin ag ail flwyddyn y Cynllun Corfforaethol.

Diwygiwyd ymagwedd y flwyddyn flaenorol yn sgil yr ymateb i'r pandemig COVID-19, ac felly mae'r adroddiad wedi'i ddarparu mewn fformat byrrach a mwy hygyrch sy'n canolbwyntio ar yr effeithiau allweddol.

Nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi gohirio'r angen i ddarparu setiau data penodol eleni, felly ni chasglwyd unrhyw Fesurau Atebolrwydd Cyhoeddus ledled Cymru gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. O ganlyniad, nid oes unrhyw gymaryddion na sgorau cenedlaethol ar gael ar gyfer adroddiad eleni.

Mae'n ofynnol i Swyddfa Archwilio Cymru wirio p'un a yw awdurdod wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd statudol a rhoi 'tystysgrif cydymffurfiaeth' mewn ymateb. Mae'r Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad yn dangos i Swyddfa Archwilio Cymru sut mae'r Cyngor wedi bodloni'r ddyletswydd hon.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth arno.

Gofynnodd Aelod o'r Cabinet am ragor o wybodaeth am y rheswm dros y gostyngiad 5% mewn Asesiadau Plant sy'n cael eu cynnal mewn pryd. Esboniodd swyddogion fod sawl rheswm dros hyn, gan gynnwys cymhlethdod anghenion y plentyn, a allai olygu bod angen ymagwedd amlasiantaethol a phartneriaeth, gan achosi oedi wrth asesu. Yn ogystal, roedd sawl swydd wag yn y tîm Gwasanaethau Plant y llynedd. Mae'r swyddi gwag hyn wedi cael eu llenwi bellach, o ganlyniad i gyllid ychwanegol, ond mae ôl-groniad yn parhau. Roedd llawer o'r recriwtiaid newydd yn Weithwyr Cymdeithasol newydd gymhwyso hefyd, sy'n golygu'n aml bod angen iddynt gael eu goruchwylio yn rhan o'u proses sefydlu a dysgu. Fodd bynnag, rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau, er bod rhywfaint o oedi wrth gynnal asesiadau, mai'r prif nod yw ansawdd yr asesiad, gan sicrhau bod holl anghenion plentyn yn cael eu bodloni.

Ceisiodd Aelod o'r Cabinet ragor o wybodaeth am y Grant Effeithlonrwydd Ynni a ph'un a yw'r cynllun yn debygol o wella yn y blynyddoedd i ddod. Esboniodd swyddogion fod hyn yn gallu bod yn broblemus, yn enwedig o ystyried y stoc dai a chostau ymlaen llaw sylweddol, ond bod y Cyngor a Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i'r cynllun. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi y bu oedi wrth gwblhau'r cynllun Safonau Ansawdd Tai Cymru o ganlyniad i'r pandemig, ond rhoddwyd sicrwydd iddynt y byddai effeithlonrwydd tanwydd yn derbyn sylw nesaf ar ôl hyn.

Trafodwyd Amcan Llesiant 1 a'r gostyngiad yn nifer y teuluoedd sy'n elwa o'r Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf. Esboniodd swyddogion, o ganlyniad i swyddi gwag, yn ogystal â heriau'r pandemig ac aildrefnu ar draws Cynlluniau'r Blynyddoedd Cynnar a Theuluoedd, bu angen i wasanaethu eraill gynnig cymorth i deuluoedd sy'n cael eu hystyried fel arfer gan Deuluoedd yn Gyntaf. O ganlyniad i hyn, nid yw rhai teuluoedd a gwasanaethau wedi cael eu cyfrif yn y ffordd gadarn arferol.

Ceisiodd Aelod o'r Cabinet ragor o wybodaeth am yr achosion o dipio anghyfreithlon a'r camau gorfodi a gymerwyd. Er y nodwyd y bu cynnydd mewn camau gorfodi, gall 18 o'r 1477 o adroddiadau ymddangos yn isel. Rhoddodd swyddogion sicrwydd i'r Cabinet fod cryn dipyn o waith yn cael ei wneud yn y maes hwn, ond ei fod yn aml yn anodd iawn ei orfodi. Mae tipio anghyfreithlon yn aml yn digwydd mewn mannau prydferth diarffordd, a heb dystiolaeth, fel dal pobl wrthi neu dystiolaeth sy'n bresennol yn y deunyddiau, fe all fod yn anodd iawn gorfodi camau. Fodd bynnag, gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod hyn yn broblem sy'n cynyddu'n genedlaethol, a bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i guddwylio er mwyn ei lleihau.

Trafododd yr Aelodau fater digartrefedd, a nodwyd bod 73% o achosion digartrefedd wedi cael eu hatal yn 2019/20, ond ceisiwyd rhagor o wybodaeth am ddisgwyliadau wrth symud ymlaen. Esboniodd swyddogion fod hyn yn anodd ei ragfynegi, ond disgwylir i achosion digartrefedd gynyddu. Mae Llywodraeth Cymru wedi mynegi'n glir bod rhaid atal digartrefedd ar y stryd ar bob cyfrif, ac er bod hyn yn anodd ei reoli wrth i'r cyfnod clo gau gwestai a llety gwely a brecwast, sy'n aml yn ddatrysiad llety dros dro, mae rhagor o waith yn cael ei wneud gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i ystyried opsiynau amgen wedi'u teilwra ar gyfer llety.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol trwy bleidlais electronig.

Am y rhesymau a roddwyd yn Adroddiad y Swyddog, PENDERFYNWYD: -

i) Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad 2019/20 fel y'i hamlinellir yn Atodiad 1 yr adroddiad;

ii) Cytuno ar berthnasedd a pharhad yr Amcanion Llesiant yn nhrydedd flwyddyn hon y Cynllun Corfforaethol pum mlynedd;

iii) Cytuno ar gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad i'r Cyngor llawn ym mis Tachwedd.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.27am.

Cymeradwywyd a llofnodwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir, yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wneir yn y cyfarfod a gynhelir ar 11 Tachwedd 2020.

______________________

CADEIRYDD